# Llwybr Datblygu'r Gymraeg 2021-22

# Crynhoi ac Adolygu



**Darlith 11 a 12**

**Dydd Mawrth 29ain o Fawrth 2022**


## Bethan Griffiths

*bethan.griffiths@pcydds.ac.uk*


Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

# Nod y sesiwn:

1. Adfyfyrio ar eich profiad ysgol
2. Gofynion y Fframwaith Cymwyseddau Iaith
3. Adolygu Rheolau Iaith
4. Asesiad Ysgrifenedig y TSI

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

# Adfyryrio ar eich profiad ysgol –
# Y GYMRAEG yn y dosbarthiadau ac ar draws yr ysgol.



Arferion da

Meysydd i'w datblygu.

Eich profiad chi o addysgu'r iaith.

# Gofynion y Fframwaith Cymwyseddau Iaith

Dyddiad cyflwyno eich portffolio:

**29.4.2022**



Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Institute of Education Addysg i Gymru Education for Wales

Rhagoriaith CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

**Portffolio Fframwaith Cymwyseddau Iaith i Athrawon**

Rhif Myfyriwr: ______________________________

Rhaglen *(ticiwch y blwch perthnasol):*

| TAR Cynradd | | TAR Uwchradd | | BA Addysg | |
|---|---|---|---|---|---|

| | Math o dystiolaeth | Rhesymau dros gyflwyno'r dystiolaeth |
|---|---|---|
| SIARAD | | |
| GWRANDO | | |
| DARLLEN | | |
| YSGRIFENNU | | |
| Addysgu a Dysgu | | |

**Cyngor doeth wrth baratoi'r portffolio**

- Tystiolaeth BERTHNASOL – rhaid i'r dystiolaeth fod yn berthnasol i'r disgrifiadau lefel.
- DIGON o dystiolaeth o'r 4 sgil a'ch gallu o ran y dulliau addysgu a dysgu, ond peidiwch gorlwytho. Ni ddylech gyflwyno mwy na 5 adnodd ar gyfer unrhyw sgil. Meddyliwch PAM rydych chi'n cyflwyno pob darn.
- Gwrando – os ydych yn cyflwyno tasgau gwrando fel tystiolaeth, rhaid i chi gynnwys y ffeil sain yn ogystal â'ch atebion i'r cwestiynau, neu fydd y dystiolaeth ddim yn profi eich gallu gwrando chi.
- Ysgrifennu – cynnwys aseiniad sy'n dangos eich gallu i ysgrifennu yn y Gymraeg a'ch gallu i gyrraedd lefelau uchaf y sgil darllen.
- Addysgu a Dysgu: Ar y lefelau uchaf rhaid i chi ddangos 'amrediad o arddulliau' – dewiswch eich tystiolaeth yn ofalus!
- Os ydych chi'n cyflwyno darn o dystiolaeth sy'n berthnasol ar gyfer sawl sgil, nodwch hynny yn y tabl uchod. Dim ond unwaith fydd angen i chi lwytho'r ffeil i'r PDP.
- Dangoswch eich hun ar eich gorau yn y portffolio – dewiswch eich tystiolaeth yn ddoeth!

- Rhaid i chi gyflwyno'r ffurflen hon fydd yn rhestru yr holl dystiolaeth rydych chi'n ei gyflwyno.
- Cyflwyno ar y PDP.
- Bydd angen esboniad byr iawn i gyfiawnhau pam bod y dystiolaeth yn addas ar gyfer y sgil.
- Does dim problem os oes un darn o dystiolaeth yn profi sawl sgil wahanol. e.e Siarad, Gwrando ac AD.
- Darllenwch y 'cyngor doeth' wrth baratoi'r portffolio.

Copi o'r Ffurflen Gyflwyno ar Moodle


Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Institute of Education Addysg i Gymru Education for Wales
Rhagoriaith CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

**Portffolio Fframwaith Cymwyseddau Iaith i Athrawon**

Rhif Myfyriwr: ______________________

Rhaglen *(ticiwch y blwch perthnasol):* TAR Cynradd ☐ TAR Uwchradd ☐ BA Addysg ☐

| | Math o dystiolaeth | Rhesymau dros gyflwyno'r dystiolaeth |
|---|---|---|
| SIARAD | | |
| GWRANDO | | |
| DARLLEN | | |
| YSGRIFENNU | | |
| Addysgu a Dysgu | | |

**Cyngor doeth wrth baratoi'r portffolio**

# Cyngor Doeth



**Cyngor doeth wrth baratoi'r portffolio**

- Tystiolaeth BERTHNASOL – rhaid i'r dystiolaeth fod yn berthnasol i'r disgrifiadau lefel.
- DIGON o dystiolaeth o'r 4 sgil a'ch gallu o ran y dulliau addysgu a dysgu, ond peidiwch gorlwytho. Ni ddylech gyflwyno mwy na 5 adnodd ar gyfer unrhyw sgil. Meddyliwch PAM rydych chi'n cyflwyno pob darn.
- Gwrando – os ydych yn cyflwyno tasgau gwrando fel tystiolaeth, rhaid i chi gynnwys y ffeil sain yn ogystal â'ch atebion i'r cwestiynau, neu fydd y dystiolaeth ddim yn profi eich gallu gwrando chi.
- Ysgrifennu – cynnwys aseiniad sy'n dangos eich gallu i ysgrifennu yn y Gymraeg a'ch gallu i gyrraedd lefelau uchaf y sgil darllen.
- Addysgu a Dysgu: Ar y lefelau uchaf rhaid i chi ddangos 'amrediad o arddulliau' – dewiswch eich tystiolaeth yn ofalus!
- Os ydych chi'n cyflwyno darn o dystiolaeth sy'n berthnasol ar gyfer sawl sgil, nodwch hynny yn y tabl uchod. Dim ond unwaith fydd angen i chi lwytho'r ffeil i'r PDP.
- Dangoswch eich hun ar eich gorau yn y portffolio – dewiswch eich tystiolaeth yn ddoeth!

Fersiwn Llywodraeth Cymru

# Fframwaith cymwyseddau iaith ar gyfer ymarferwyr addysg

ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru Welsh Government

| | Lefel Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar ...eithoedd/C...eg i Oed... | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Dim sgiliau iaith Gymraeg** | **Cyn-fynediad** | **A1/Mynediad** | **A2/Sylfaen** | **B1/Canolradd** | **B2/Uwch** | **C1/Hyfedredd** |
| | **Nodweddion y gweithlu Cyfrifiad Blynyddol o'r Gw... ...golion (CBGY): Codau gal... ...y Gymraeg** | | | | | | |
| | **W1** | **Defnydd HCA yn unig** | **W2** | **W3** | **W4** | **W5** | **W6** |
| **Gwrando** | ...im sgiliau. | Rwy'n gallu deall ac ymateb i gyfarchion, cwestiynau a geirfa syml a ddefnyddir yn gyson yng nghyd-destun yr ysgol gyfan. | Rwy'n gallu deall ac ymateb i frawddegau syml pob dydd, sy'n berthnasol i gyd-destun yr ysgol, pan fydd y siarad yn bwyllog. | Rwy'n gallu deall ac ymateb i amrediad o frawddegau syml sy'n ymwneud â sefyllfaoedd sy'n berthnasol i gyd-destun yr ysgol, e.e. *themâu pob dydd ac amseroedd gwahanol y ferf*. | Rwy'n gallu deall ac ymateb i brif bwyntiau pan fydd rhywun yn siarad yn naturiol am bynciau pob dydd o fewn a thu allan i'r ysgol, e.e. *mewn sgwrs neu mewn sefyllfaoedd grŵp bach*. | Rwy'n gallu deall y rhan fwyaf o drafodaethau, hyd yn oed am bynciau anghyfarwydd ac arbenigol, e.e. *mewn cyd-destun ffurfiol*. | Rwy'n gallu deall ac ymateb i bron popeth sy'n cael ei glywed, gan gynnwys gwahanol acenion, tafodieithoedd a chyflymder y siaradwr. |
| **Llafar** | ...im sgiliau. | Rwy'n gallu ynganu'r wyddor a dweud geiriau syml yn ddigon cywir yng nghyd-destun yr ysgol.<br>Rwy'n gallu cyflwyno fy hun a dechrau rhyngweithio'n gymdeithasol trwy ddefnyddio ymadroddion pob dydd cyfarwydd, e.e. *cyfarchion, diolch, canmol dysgwr a rhoi gorchmynion syml*. | Rwy'n gallu cyflwyno fy hun ac eraill ar lafar.<br>Rwy'n gallu gofyn ac ateb cwestiynau am wybodaeth syml, e.e. *ble mae rhywun yn byw, beth maen nhw'n hoffi ei wneud*.<br>Rwy'n gallu defnyddio amseroedd y ferf a rhifau. | Rwy'n gallu cyfrannu at sgwrs syml gan ddefnyddio amrediad o frawddegau syml sy'n ymwneud â sefyllfaoedd sy'n berthnasol i gyd-destun yr ysgol, e.e. *themâu pob dydd ac amseroedd gwahanol y ferf*. | Rwy'n gallu cynnal a chyfrannu at sgwrs am bynciau cyfarwydd sy'n ymwneud â'r ysgol a bywyd pob dydd gan ddefnyddio amrywia... o frawddegau syml a chymhle...<br>Rwy'n gallu disgrifio profiada... a gobeithion, ac yn gallu rhoi... esboniadau cryno dros fy marn...<br>Rwy'n dechrau adnabod gwalla... cyffredin. | ...wy'n gallu cyfathrebu gan ddefnyddio ystod o gystrawennau sy'n dangos lefel gynyddol o gywirdeb.<br>Rwy'n gallu trafod pynciau anghyfarwydd ac arbenigol.<br>Rwy'n gallu mynegi a chyfiawnhau barn.<br>Rwy'n gallu adnabod rhai gwallau a'u cywiro. | Rwy'n gallu siarad yn estynedig ...am faterion cymhleth, ac yn gallu ...flwyno dadleuon gan ddefnyddio'r ...air priodol.<br>R... ...n gallu rhyngweithio ac arwain tr... ...daethau a sesiynau addysgu es... ...edig yn gywir gan amlaf.<br>R... ...n gallu hunangywiro lle bo ...gen. |
| **Darllen** | ...im sgiliau. | Rwy'n gallu deall cyfarchion a gorchmynion syml.<br>Rwy'n gallu darllen unrhyw ymadroddion a ddefnyddir mewn testun syml.<br>Rwy'n gallu deall manylion personol elfennol iawn, e.e. *enw a chyfeiriad*. | Rwy'n gallu deall testunau ysgrifenedig byr iawn lle mae pobl yn rhoi gwybodaeth bersonol syml amdanyn nhw eu hunain neu eraill, e.e. *ffurflenni, arwyddion yr ysgol*.<br>Rwy'n gallu darllen gorchmynion sy'n addas i gyd-destun yr ysgol. | Rwy'n gallu deall negeseuon ysgrifenedig am bethau bob dydd a llythyron/e-byst syml.<br>Rwy'n gallu darllen straeon syml ar goedd gydag ymgais i ynganu'n gywir. | Rwy'n gallu deall erthyglau neu e-byst uniongyrchol am bynciau pob dydd neu bynciau'n ymwneud â'r gwaith.<br>Rwy'n gallu darllen straeon ar goedd gan ynganu'n gywir ar y cyfan. | ...wy'n gallu deall y rhan fwyaf o... o... ...th, erthyglau papur ...ydd ac adrod... ...eu bwriadu ar gyfer siaradwyr rhugl, gyda chymorth geiriadur, ac yn gallu llithr ddarllen (sganio) trwy destunau hir i gael hyd i fanylion.<br>Rwy'n gallu darllen straeon ar goedd yn eithaf hyderus ac ynganu'n gywir. | Rwy'n gallu crynhoi gwybodaeth o wahanol ffynonellau llafar ac ysgrifenedig, ac ail-greu dadleuon a disgrifiadau mewn cyflwyniad cydlynus.<br>Rwy'n gallu darllen straeon ar goedd i ddysgwyr o bob oedran yn hyderus ac ystyrlon. |
| **Ysgrifennu** | ...im sgiliau. | Rwy'n gallu ysgrifennu geirfa syml a ddefnyddir yn gyson yng nghyd-destun yr ysgol gyfan yn gywir. | Rwy'n gallu ysgrifennu brawddegau syml pob dydd, sy'n berthnasol i gyd-destun yr ysgol, e.e. *cyfarwyddiadau, cwestiynau, gorchmynion, adborth syml*. | Rwy'n gallu ysgrifennu brawddegau cyfansawdd/cymhleth at ddibenion addysgol. | Rwy'n gallu ysgrifennu paragraffau byr am bynciau bob dydd o fewn a thu allan i'r ysgol.<br>Rwy'n dechrau adnabod gwallau cyffredin. | Rwy'n gallu ysgrifennu paragraffau estynedig am amrywiaeth o bynciau anghyfarwydd ac arbenigol, efallai gyda chymorth golygyddol.<br>Rwy'n gallu adnabod rhai gwallau a'u cywiro. | Rwy'n gallu ysgrifennu'n estynedig ac yn safonol am faterion cymhleth.<br>Rwy'n gallu ysgrifennu mewn ystod o ffurfiau.<br>Rwy'n gallu hunangywiro lle bo angen. |

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG41488

Fersiwn Llywodraeth Cymru

# Gallu ymarferwyr addysg i gymhwyso a datblygu sgiliau iaith a llythrennedd dysgwyr

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bydd y datganiadau canlynol yn galluogi ymarferwyr addysg i ddisgrifio eu gallu cyfredol i ddefnyddio amrediad o strategaethau addysgu a dysgu, wrth gynllunio ac addysgu, er mwyn datblygu sgiliau llafaredd, darllen ac ysgrifennu y dysgwyr ar y lefel briodol.

Rwy'n gallu defnyddio amrediad o strategaethau addysgu a dysgu blaengar yn hyderus a hyfedr.
Rwy'n gallu arwain a chefnogi ymarferwyr eraill yn y maes.

Rwy'n gallu defnyddio amrediad o strategaethau addysgu a dysgu yn effeithiol.
Rwy'n gallu ymchwilio a chymhwyso'r datblygiadau diweddaraf ym maes caffael iaith.

Mae gen i ddealltwriaeth gadarn o strategaethau addysgu a dysgu iaith.
Rwy'n gallu cymhwyso rhai strategaethau yn effeithiol.

Mae gen i ddealltwriaeth o strategaethau addysgu a dysgu iaith.
Rwy'n dechrau cymhwyso strategaethau addysgu a dysgu iaith.

Mae gen i ymwybyddiaeth gyfyngedig o strategaethau addysgu a dysgu iaith.

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG41488

# Canllaw ar ofynion y Fframwaith [(Dogfen ar Moodle)]

**Canllaw ar Ofynion Y Fframwaith 2021-22**

- Dyma enghreifftiau o'r mathau o bethau gallwch chi eu cynnwys fel tystiolaeth i enghreifftio eich lefel ar bob sgil. Does dim disgwyl i chi gynnwys pob un o'r rhain – gweler y Cyngor Doeth ar waelod y dudalen gynnwys am fwy o fanylion.

| | Cyn-fynediad | Mynediad<br>**A1** | Sylfaen<br>**A2** | Canolradd<br>**B1** | Uwch<br>**B2** | Hyfedredd<br>**C1** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llafar | Recordiad yn dweud cyfarchion syml ar ddechrau gwers e.e. Bore da.<br><br>Recordiad yn dweud rhai geiriau cyfarwydd. | Recordio eu hunain yn darllen llyfr/ testun syml i'r plant ac yn holi cwestiynau.<br><br>Recordio meicro-wers fer.<br><br>Trafodaeth pâr yn holi ac ateb cwestiynau syml, neu'n cael sgwrs fer. | Recordio eu hunain yn darllen llyfr/ testun i'r plant gan ddefnyddio amrywiaeth o batrymau i holi cwestiynau.<br><br>Recordio meicro-wers.<br><br>Trafodaeth pâr yn holi ac ateb cwestiynau, neu'n cael sgwrs. | Recordio eu hunain yn darllen llyfr/ testun i'r plant ac yn cynnal trafodaeth syml gyda'r plant.<br><br>Recordio meicro-wers.<br><br>Trafodaeth grŵp am bwnc addas. | Trafodaeth grwp (e.e. am erthygl neu drafodaeth am bwnc llosg ym myd addysg) - gwrando ac ymateb i'w gilydd.<br><br>Recordiad o wers sy'n dangos cyfraniad llafar estynedig gan yr unigolyn.<br><br>Ffug gyfweliad<br><br>Recordiad o gyflwyniad llafar y TSI | Trafodaeth grwp (e.e. am erthygl neu drafodaeth am bwnc llosg ym myd addysg) - gwrando ac ymateb i'w gilydd<br><br>Recordiad o wers sy'n dangos cyfraniad llafar estynedig gan yr unigolyn.<br><br>Ffug gyfweliad<br><br>Recordiad o gyflwyniad llafar y TSI. |
| Darllen | Recordiad yn darllen darn neu lyfr syml iawn – brawddeg neu ddwy. | Recordiad yn darllen sgwrs ar ôl sawl gwrandawiad.<br><br>Recordiad yn darllen llyfr i'r plant neu'n darllen cyfarwyddiadau i'r plant.<br><br>Tasg ddarllen a deall.<br>Ymarferion cyfieithu. | Recordiad yn darllen sgwrs ar ol sawl gwrandawiad.<br><br>Recordiad yn darllen llyfr i'r plant a thrafod y testun.<br><br>Tasg ddarllen a deall<br><br>Cyn-bapurau arholiadau darllen Defnyddio'r Gymraeg Sylfaen ar wefan CBAC*<br><br>Ymarferion cyfieithu. | Recordiad yn darllen sgwrs ar ol sawl gwrandawiad.<br><br>Recordiad yn darllen llyfr i'r plant ac yn trafod y testun neu'n mynegi barn arno.<br><br>Tasg ddarllen a deall.<br><br>Cyn-bapurau arholiadau darllen Defnyddio'r Gymraeg Canolradd ar wefan CBAC* | Aseiniad academaidd â ffynonellau (mwy nag un yn unig) Cymraeg.<br><br>Recordiad yn darllen rhan o nofel Gymraeg ac yn trafod y testun yn drylwyr mewn grŵp e.e Clwb Darllen, neu'n trafod y cymeriad/au | Aseiniad academaidd ag **amrywiaeth** o ffynonellau Cymraeg<br><br>Recordiad yn darllen rhan o nofel Gymraeg ac yn dadansoddi'r testun yn estynedig mewn grŵp e.e Clwb Darllen. |

# Sut mae uwchlwytho

**Ffilm Gymraeg yn dangos sut i uwchlwytho -** https://uwtsd.hosted.panopto.com/Panopto/Pages/Viewer.aspx?id=0e6022a3-7ce6-45c4-bf46-ae2300b54580



# Cyngor Pellach

Cyflwynwch bortffolio sy'n eich dangos chi ar eich gorau.

Digon ond dim gormod.

Perthnasol

Dewiswch y dystiolaeth yn ofalus:
Ydy'n berthnasol?
Ydy'n addas?
Beth mae'n ddangos?
Pam bod y dystiolaeth yno?

Mae'n haws chwynnu na chasglu o'r newydd.

Gall ffilm o wers (meicro-ddysgu) arddangos mwy nag un sgil, e.e. Llafar, Gwrando a Darllen.
Dim ond un waith bydd angen uwchlwytho'r ffilm - rhowch gyfarwyddiadau manwl yn y daflen gyflwyno yn esbonio ble mae'r ffilm .

# Pwysig!

- Does dim modd pasio / methu y Fframwaith. Nid arholiad, aseiniad na phrawf yw'r portffolio.
- Disgwylir i bob myfyriwr sy'n graddio gyda SAC gael lefelau'r Fframwaith ar eu PDP ar ddechrau eu gyrfa.
- Ni ddylai casglu tystiolaeth fod yn llawer o waith ychwanegol. Dylai fod yn rhywbeth sy'n digwydd yn naturiol yn ystod y flwyddyn.

# Cwestiynau pellach?



# Adolygu Rheolau Iaith



# Y treigladau



# Tabl Treigladau

| | Meddal | Trwynol | Llaes |
|---|---|---|---|
| p | b | mh | ph |
| t | d | nh | th |
| c | g | ngh | ch |
| b | f | m | |
| d | dd | n | |
| g | / | ng | |
| ll | l | | |
| m | f | | |
| rh | r | | |

Sawl rheol iaith allwch chi gofio?



# Y Treigladau

**treiglad trwynol**
*ar ôl 'fy' + 'yn'* ▼

- fy mhen i
- fy nhraed i
- fy nghoes i
- fy mraich i
- fy nannedd i
- fy ngwallt i
- ym Mhontypridd
- yn Nhonypandy
- yng Nghaerdydd
- ym Mangor
- yn Ninas Powys
- yng Ngwent

| Meddal | Trwynol | Llaes |
|---|---|---|
| p > b | p > mh | p > ph |
| t > d | t > nh | t > th |
| c > g | c > ngh | c > ch |
| b > f | b > m | |
| d > dd | d > n | |
| g > | g > ng | |
| m > f | | |
| ll > l | | |
| rh > r | | |

◄*Mae* **treiglad llaes** *ar ôl:*►

| | | | |
|---|---|---|---|
| ei phen hi | ei thraed hi | ei choes hi | tra phwysig |
| gyda phlant | | | â phlant |

- halen a phupur
- gwell na thywydd ddoe
- tua phump o'r gloch
- tri thiwtor
- chwe thiwtor

***Treiglad cymysg:** llaes gyda t/c/p ond meddal gyda d/g/b/m/ll/rh*

Thalodd hi ddim biliau – fwytodd hi ddim bwyd

Y dyn na phrynodd fara - Y ferch na fwytodd fara

**Treiglad meddal** ▼

am ar at gan heb hyd i
o tan tros trwy wrth

dacw ddyn | dyma berson | dyna le | wele ferch

hen ŵr, prif fynedfa, hoff liw

mor wyn â'r galchen

cyn goched â thân

Y dyn a welais i

dau fab, dwy ferch, ail law

rhaid i fi fynd, gwell i fi fynd, ar ôl i fi fynd, cyn i fi fynd

ei ben e, ei draed e, ei goes e, ei fraich e,
ei ddant e, ei wallt e, ei figwrn e, ei lais e

Dw i'n dod o Gaerdydd

Gyda'r cwestiwn: Welaist ti'r ffilm? Brynaist ti docyn? Gollaist ti dy ffordd?

ansoddair enw benywaidd: noswaith dda

Dw i'n mynd i Fangor

Ar ôl 'un' benywaidd: un gadair

Ar ôl 'y' benywaidd: y bont

Ar ôl ffurf gryno'r ferf: darllenais i lyfr, ces i frechdan, prynais i gylchgrawn, gwelais i ddrama, gwerthais i dŷ

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rydw i'n dysgu ym mlwyddyn 5 mewn ysgol yng Nghaerffili.<br><br>PAM? | Mae plant blwyddyn 5 yn blant da. Maen nhw'n dawel ac yn frwdfrydig.<br><br>PAM? | Merch dda<br>Ysgol Gymraeg<br>Gwers ddiddorol<br><br>PAM? | un gwningen<br>un gath<br>un falwoden<br>OND un ci<br>PAM? | Dau gi a dwy gath<br><br>Dau lyfr a dwy wers<br><br>PAM? |
| ar ddiwedd y wers<br>Croeso i ddosbarth Mr Puw<br>PAM? | te a choffi<br>PAM? | Weloch chi'r gêm rygbi?<br>PAM? | Fwytais i ddim siocled.<br>Ddarllenais i ddim llyfr.<br>PAM? | Phrynais i ddim siocled.<br>Thalais i ddim.<br>Chanais i ddim.<br>PAM? |
| Rhaid i chi fynd<br>Ga i fynd?<br>PAM? | y wers<br>y ferch<br>y gadair ond y bwrdd<br>PAM? | Mae fy nghar i yn y garej.<br>Mae fy nhŷ i yn anferth.<br>PAM? | Mae dy gar yn y garej<br>Mae dy dŷ di yn anferth!<br>PAM? | Mae ei lyfr e ar y bwrdd.<br>Mae ei wersi e'n ardderchog.<br>PAM? |
| Mae ei llyfr hi ar y bwrdd<br>OND Mae ei phensiliau ar y bwrdd.<br>PAM? | ei hysgol hi ond<br>ei ysgol e<br>PAM? | Pa liw ydy ffrog Siw?<br><br>PAM? | Beth wylioch chi ar y teledu neithiwr?<br>PAM? | Helo bawb!<br>Bore da blant!<br>Hwyl fawr blant!<br>PAM? |
| Y bwrdd hwn / y wers hon/ y plant hyn<br><br>PAM? | banana ac oren a mefus ac afal<br><br>PAM? | Y bachgen<br>Yr eliffant<br>Mae'r eliffant yn llwyd<br><br>PAM? | Y ferch ond y llygoden<br>Yn dda ond yn lliwgar<br>un gath ond un llygoden<br><br>PAM? | Mae'r plant yn dda<br>ond<br>Mae'r plant yn dawnsio<br><br>PAM? |





# Rhifolion a'r treigladau



# RHIFO








**un ci**

**dau gi**

**tri chi**

**pedwar ci**

**pum ci**

**chwe chi**





**un gath**

**dwy gath**

**tair cath**

**pedair cath**

**pum cath**

**chwe chath**



y ci hwn

Cofiwch!
Mae enw benywaidd unigol yn treiglo'n feddal ar ôl y fannod.

y gath hon

# Faint o'r gloch ydy hi?



Mae amser yn enw gwrywaidd
e.e. amser da

Ond 'Hi' wrth drafod amser
e.e. Mae hi'n ddeg o'r gloch.

dwywaith / tair gwaith

# Trefnolion (*Ordinals*)



# Y Dyddiad

## Ydych chi'n cofio'r rhain?

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1af<br>y cyntaf | 2il<br>yr ail | 3ydd<br>y trydydd | 4ydd<br>y pedwerydd | 5ed<br>y pumed |
| 6ed<br>y chweched | 7fed<br>y seithfed | 8fed<br>yr wythfed | 9fed<br>y nawfed | 10fed<br>y degfed |
| 11eg<br>yr unfed ar ddeg | 12fed<br>y deuddegfed | 13eg<br>y trydydd ar ddeg | 14eg<br>y pedwerydd ar ddeg | 15fed<br>y pymthegfed |
| 16eg<br>yr unfed ar bymtheg | 17eg<br>yr ail ar bymtheg | 18fed<br>y deunawfed | 19eg<br>y pedwerydd ar bymtheg | 20fed<br>yr ugeinfed |
| 21ain<br>yr unfed ar hugain | 22ain<br>yr ail ar hugain | 23ain<br>y trydydd ar hugain | 24ain<br>y pedwerydd ar hugain | 25ain<br>y pumed ar hugain |
| 26ain<br>y chweched ar hugain | 27ain<br>y seithfed ar hugain | 28ain<br>yr wythfed ar hugain | 29ain<br>y nawfed ar hugain | 30ain<br>y degfed ar hugain |
| 31ain<br>yr unfed ar ddeg ar hugain | | | | |




| | |
|---|---|
| Ionawr | Gorffennaf |
| Chwefror | Awst |
| Mawrth | Medi |
| Ebrill | Hydref |
| Mai | Tachwedd |
| Mehefin | Rhagfyr |

Y cyntaf o Fawrth
Y cyntaf o fis Mawrth
Mawrth y cyntaf

Mawrth 1af
1 Mawrth

## Y dyddiad

## The date

**Misoedd y flwyddyn**
- Ionawr
- Chwefror
- Mawrth
- Ebrill
- Mai
- Mehefin
- Gorffennaf
- Awst
- Medi
- Hydref
- Tachwedd
- Rhagfyr

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1af<br>y cyntaf | 2il<br>yr ail | 3ydd<br>y trydydd | 4ydd<br>y pedwerydd |
| 5ed<br>y pumed | 6ed<br>y chweched | 7fed<br>y seithfed | 8fed<br>yr wythfed |
| 9fed<br>y nawfed | 10fed<br>y degfed | 11eg<br>yr unfed ar ddeg | 12fed<br>y deuddegfed |
| 13eg<br>y trydydd ar ddeg | 14eg<br>y pedwerydd ar ddeg | 15fed<br>y pymthegfed | 16eg<br>yr unfed ar bymtheg |
| 17eg<br>yr ail ar bymtheg | 18fed<br>y deunawfed | 19eg<br>y pedwerydd ar bymtheg | 20fed<br>yr ugeinfed |
| 21ain<br>yr unfed ar hugain | 22ain<br>yr ail ar hugain | 23ain<br>y trydydd ar hugain | 24ain<br>y pedwerydd ar hugain |
| 25ain<br>y pumed ar hugain | 26ain<br>y chweched ar hugain | 27ain<br>y seithfed ar hugain | 28ain<br>yr wythfed ar hugain |
| 29ain<br>y nawfed ar hugain | 30ain<br>y degfed ar hugain | 31ain<br>yr unfed ar ddeg ar hugain | |

Cofiwch !



There is a soft mutation after o.

Pryd mae pen-blwydd Gavin?

Ar y cyntaf o Dachwedd.

Beth ydy'r dyddiad heddiw?

Gorffennaf y pymthegfed.

Pryd mae pen-blwydd Ffion?

Ar Hydref y cyntaf.



http://adnoddau.canolfanpeniarth.org/matiau_gramadeg/?t=11

# Gweithgaredd

Ydych chi'n cofio sut i ddweud y dyddiad yn llawn Gymraeg?

7/7

Gorffennaf y seithfed

neu

y seithfed o Orffennaf






| | | |
|---|---|---|
| 10/10 | ........................................ | ........................................ |
| 2/6 | ........................................ | ........................................ |
| 21/12 | ........................................ | ........................................ |
| 13/4 | ........................................ | ........................................ |
| 15/8 | ........................................ | ........................................ |
| 31/9 | ........................................ | ........................................ |

# Gwirio'r Atebion







| | |
|---|---|
| 10/10 | y degfed o Hydref |
| 2/6 | yr ail o Fehefin |
| 21/12 | yr unfed ar hugain o Ragfyr |
| 13/4 | y trydydd ar ddeg o Ebrill |
| 15/8 | y pymthegfed o Awst |
| 31/9 | yr unfed ar ddeg ar hugain o Fedi |



# Trefnolion



Fel arfer mae cyntaf yn dod ar ôl yr enw:

y dyn cyntaf, y nofel gyntaf

Unfed yw'r ffurf mewn ffurf gyfansawdd:

e.e. yr unfed mis ar ddeg

yr unfed ferch ar bymtheg



Trefnolion

Mae ‘**cyntaf**’ yn dod ar ôl yr enw, ac yn treiglo’n feddal ar ôl enw benywaidd unigol e.e.
y bachgen cyntaf
y ferch **g**yntaf

Mae bob trefnolyn arall yn dod cyn yr enw.

Mae enwau (gwrywaidd a benywaidd) yn treiglo’n feddal ar ôl ‘**ail**’, e.e.
yr ail **f**wrdd
yr ail **g**adair
Dydy trefnolion eraill sy’n dod cyn enwau gwrywaidd ddim yn achos treiglad.
Ond, mae trefnolion sy’n dod cyn enwau benywaidd yn achosi **treiglad meddal**. e.e.

y **d**rydedd **dd**esg
y **b**edwaredd **g**adair
y **b**umed **w**ers

**Cyntaf**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwy | oedd | y bachgen cyntaf yn y ras? | Pwy | oedd | y ferch **g**yntaf yn y ras? |
| Ble | mae'r | bachgen cyntaf? | Ble | mae'r | ferch **g**yntaf? |

**Ail**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwy | oedd | yr ail **f**achgen yn y ras? | Pwy | oedd | yr ail ferch yn y ras? |
| Ble | mae'r | ail **f**achgen? | Ble | mae'r | ail ferch? |

**Trydydd, trydedd; pedwerydd, pedwaredd**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwy | oedd | y trydydd bachgen yn y ras? | Pwy | oedd | y **d**rydedd ferch yn y ras? |
| Ble | mae'r | pedwerydd bachgen? | Ble | mae'r | **b**edwaredd ferch? |

**Pumed ... chweched ... seithfed ... wythfed ... nawfed ... degfed**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwy | oedd | y pumed bachgen yn y ras? | Pwy | oedd | y **b**umed ferch yn y ras? |
| Dyma'r | | degfed bachgen. | Dyma'r | | **dd**egfed ferch. |

***Mae enwau benywaidd yn achosi treiglad meddal ***

# Siart sy'n dangos y treigladau ar ôl trefnolion

| Trefnol | Cenedl | Treiglad | Enghraifft |
|---|---|---|---|
| cyntaf | Gwrywaidd | Dim treiglad | y bachgen cyntaf |
| gyntaf | Benywaidd | Treiglad Meddal | y ferch gyntaf |
| ail | Gwrywaidd | Treiglad Meddal | yr ail gwch |
| ail | Benywaidd | Treiglad Meddal | yr ail long |
| trydydd | Gwrywaidd | Dim treiglad | y trydydd coleg |
| trydedd | Benywaidd | Treiglad Meddal | y drydedd brifysgol |
| pedwerydd | Gwrywaidd | Dim treiglad | y pedwerydd car |
| pedwaredd | Benywaidd | Treiglad Meddal | y bedwaredd gert |
| pumed | Gwrywaidd | Dim treiglad | y pumed ci |
| pumed | Benywaidd | Treiglad Meddal | y bumed gath |
| chweched | Gwrywaidd | Dim treiglad | y chweched miliynydd |
| chweched | Benywaidd | Treiglad Meddal | y chweched filiynyddes |
| seithfed | Gwrywaidd | Dim treiglad | y seithfed plismon |
| seithfed | Benywaidd | Treiglad Meddal | y seithfed blismones |
| wythfed | Gwrywaidd | Dim treiglad | yr wythfed tafarnwr |
| wythfed | Benywaidd | Treiglad Meddal | yr wythfed dafarnwraig |
| nawfed | Gwrywaidd | Dim treiglad | y nawfed drws |
| nawfed | Benywaidd | Treiglad Meddal | y nawfed ris |
| degfed | Gwrywaidd | Dim treiglad | y degfed canwr |
| degfed | Benywaidd | Treiglad Meddal | y ddegfed gantores |

canrif
canrifoedd



**Canrif**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Canrif 1 - 10 | y | ganrif | gyntaf | |
| | yr | ail | ganrif | |
| | y | drydedd | ganrif | |
| | y | bedwaredd | ganrif | |
| | y | bumed | ganrif | |
| | y | chweched | ganrif | |
| | y | ddegfed | ganrif | |
| Canrif 11 - 19 | yr | unfed | ganrif | ar ddeg |
| | y | ddeuddegfed | ganrif | |
| | y | drydedd | ganrif | ar ddeg |
| | y | bedwaredd | ganrif | ar ddeg |
| | y | bymthegfed | ganrif | |
| | yr | unfed | ganrif | ar bymtheg |
| | yr | ail | ganrif | ar bymtheg |
| | y | ddeunawfed | ganrif | |
| | y | bedwaredd | ganrif | ar bymtheg |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Canrif 20 - 30 | yr | ugeinfed | ganrif | |
| | yr | unfed | ganrif | ar hugain |

canrif

enw benywaidd

# Gweithgaredd – Adolygu Trefnolion




https://wordwall.net/play/1048/643/265

https://wordwall.net/play/1048/643/265




blwydd, blynedd, blwyddyn

# blwydd, blynedd, blwyddyn



Mae gyda ni 3 gair am *YEAR* yn y Gymraeg.

Defnyddir BLWYDD wrth sôn am oedran - e.e tair blwydd oed

Defnyddir BLYNEDD pan yn cyfrif blynyddoedd – e.e Bydd y cwrs yn para pedair blynedd

Defnyddir BLWYDDYN mewn termau/dywediadau ac wrth gyfeirio at flwyddyn benodol – e.e Blwyddyn Newydd dda! Mae hon yn flwyddyn bwysig

Felly:

Ro'n i'n ugain **mlwydd** oed pan oeddwn i ym **Mlwyddyn 3**, ac ro'n i eisoes wedi treulio dwy **flynedd** yn y brifysgol. Y drydedd **flwyddyn** oedd y **flwyddyn** orau. ✓

blwyddyn

blwyddyn / blynedd

**Blwyddyn** ydy *year*, ond ar ôl rhifau heblaw 1 rydyn ni'n
dweud **blynedd**.
Edrychwch ar y treigladau sy'n dilyn.

| | |
|---|---|
| blwyddyn | un **fl**wyddyn |
| | dwy **fl**ynedd |
| | tair **b**lynedd |
| | pedair blynedd |
| | pum **m**lynedd |
| | chwe **b**lynedd |
| | saith **m**lynedd |
| | wyth **m**lynedd |
| | naw **m**lynedd |
| | deg/deng **m**lynedd |

Oes ffordd o gofio hyn?

# 1-10

| Rhif | |
|---|---|
| 1 | un flwyddyn/blwyddyn |
| 2 | dwy flynedd |
| 3 | tair blynedd |
| 4 | pedair blynedd |
| 5 | pum mlynedd |
| 6 | chwe blynedd |
| 7 | saith mlynedd |
| 8 | wyth mlynedd |
| 9 | naw mlynedd |
| 10 | deng mlynedd |

# 11+

| Rhif | | Rhif | |
|---|---|---|---|
| 11 | un deg un o flynyddoedd | 66 | chwe deg chwech o flynyddoedd |
| 22 | dau ddeg dau o flynyddoedd | 77 | saith deg saith o flynyddoedd |
| 33 | tri deg tri o flynyddoedd | 88 | wyth deg wyth o flynyddoedd |
| 44 | pedwar deg pedwar o flynyddoedd | 99 | naw deg naw o flynyddoedd |
| 55 | pum deg pump o flynyddoedd | 100 | cant o flynyddoedd |

# oed



| | | | |
|---|---|---|---|
| Faint oedd oed Aled ddoe? | Roedd e'n | **flwydd** | oed. |
| | | **ddwy** | |
| | | **dair** | |
| | | **bedair** | |
| | | **bump** | |
| Faint ydy oed y mab nawr? | Mae e'n | | |
| Faint fydd oed y ferch wythnos nesa? | Bydd hi'n | **flwydd** | oed. |
| | | **ddwy** | |
| | | **dair** | |
| | | **bedair** | |
| | | **bump** | |

## canrannau:

Rydym yn defnyddio'r ymadrodd 'y cant' i ddangos canrannau yn y Gymraeg. e.e 33% tri deg tri y cant

## pwyso a mesur:

Mae rhan fwyaf o unedau pwyso a mesur yn wrywaidd felly rhaid defnyddio rhifolion gwrywaidd. Cofiwch fod 'milltir' yn fenywaidd.

## ffracsiynau

Mae termau penodol ar gyfer ffracsiynau yn cael eu defnyddio yn aml e.e. hanner, chwarter.

Ar gyfer ffracsiynau eraill rydym yn defnyddio'r patrwm

____ r(h)an o ____

e.e. dwy ran o bump (2/5).

Mae 'rhan' yn fenywaidd felly mae'n rhaid defnydddio rhifolyn benywaidd o'i flaen.

# Adnoddau Pellach

Ymarferion Gloywi Iaith
https://sway.office.com/m04alwrSInwv0WYI?ref=Link

Cwrs Gloywi Dysgu Cymraeg (am ddim)

https://dysgucymraeg.cymru/cymraeg-gwaith/cyrsiau-cymraeg-gwaith/gwella-cymraeg-gwaith-rhan-1/